



department for  
**culture, media  
and sport**



United Nations  
Educational, Scientific and  
Cultural Organization



World Heritage  
in the United Kingdom

# Treftadaeth y Byd i'r Genedl

Gwybodaeth i ymgeiswyr ar gyfer rhestr betrus newydd y  
Deyrnas Unedig

Mawrth 2010

improving  
the quality  
of life for all

Ein nod yw gwella ansawdd bywyd i bawb trwy weithgareddau diwylliannol a chwaraeon, cefnogi'r ymgais i ragori, a hyrwyddo'r diwydiannau ymwelwyr, creadigol a hamdden.

## Rhagymadrodd

Mae Llywodraeth y DU yn paratoi Rhestr Betrus newydd o safleoedd naturiol, diwylliannol a chymysg i'w henwebu ar gyfer Rhestr Treftadaeth y Byd UNESCO. Cyflwynir Rhestr Betrus newydd y DU i UNESCO yn 2011 gyda golwg ar fwrw ymlaen gydag enwebiadau o'r rhestr newydd o 2012. Ni fydd y Llywodraeth o reidrwydd yn gwneud enwebiad bob blwyddyn.

Mae'r Llywodraeth felly'n ceisio enwebiadau gan Awdurdodau Lleol ac eraill ledled y DU, y Tiriogaethau Tramor a Thiriogaethau Dibynnol ar y Goron trwy ddefnyddio'r ffurflen gais. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw **11 Mehefin 2010**.

Mae statws Safle Treftadaeth y Byd gan UNESCO'n cydnabod arwyddocâd gwirioneddol fyd-eang lleoedd o'r fath. Mae'n ffrainc ac anrhydedd a gall ddod â manteision cymdeithasol ac economaidd. Am fod rhaid i bob Safle Treftadaeth y Byd fod o bwysigrwydd gwirioneddol fyd-eang, mae Rhestr Treftadaeth y Byd o reidrwydd yn ddethol iawn ac ni fydd llawer o leoedd o arwyddocâd cenedlaethol, neu hyd yn oed ryngwladol, yn cyrraedd y rhestr.

Mae statws o'r fath hefyd yn dod â chyfrifoldebau o ran diogelu, gwarchod a throsglwyddo Gwerth Byd-eang Neilltuol y safle i genedlaethau'r dyfodol. Ni ddylid tanbriso'r ymrwymadau hyn. Mae paratoi enwebiad ar gyfer statws Safle Treftadaeth y Byd, a rheoli safleoedd yn y tymor hir, yn gostus ac maent yn cynnwys ystod o bobl. Mae'n bwysig defnyddio adnoddau mewn ffordd gyfrifol, a dylid ystyried y sylwadau hyn yn ofalus cyn gwneud unrhyw gais.

Asesir ceisiadau gan banel o arbenigwyr annibynnol a benodwyd gan y Llywodraeth a chyflwynir Rhestr i Weinidogion i'w chymeradwyo cyn iddi fynd ymlaen at UNESCO yn 2011.

## Gwybodaeth

Mae'r pecyn cais yn cynnwys **taflenni gwybodaeth gefndirol ar Dreftadaeth y Byd** a'i chyd-destun gyda'r **ffurflen gais** a **thafleuni cyfarwyddyd** ar ei llenwi, a **sut i geisio cyfarwyddyd cyffredinol pellach**. Mae Tafleuni wybodaeth 10 yn rhestr o **ffynonellau gwybodaeth bellach a gwefannau defnyddiol**. Anogir ymgeiswyr yn gryf i ddarllen y pecyn cyfan yn ofalus cyn llenwi'r ffurflen gais.

## Cyngor pellach

Mae **cyngor cyffredinol** ar y broses o wneud cais ar gael yn y lle cyntaf gan Gomisiwn Cenedlaethol y DU (UKNC).

Cysyllter â: Harry Reeves, Secretary General, UKNC, Suite 98, 3 Whitehall Court, London SW1A 2EL

Ffôn: 0207 766 3490

E-bost: [hreeves@unesco.org.uk](mailto:hreeves@unesco.org.uk).

**Tafleuni Gwybodaeth**

- 1 UNESCO
- 2 Y Confensiwn ar Ddiogelu Treftadaeth Ddiwylliannol a Naturiol y Byd (1972) - Confensiwn Treftadaeth y Byd
- 3 Pwy sy'n gwneud beth: Llywodraethau Gwladol, Pwyllgor Treftadaeth y Byd a'i gynghorwyr.
- 4 Beth yw Safle Treftadaeth y Byd?
- 5 Beth yw'r Rhestr Betrus?
- 6 Gofynion cynnwys ar Restr Treftadaeth y Byd:
  - Cyfanwydd Gwerth Byd-eang Neilltuol
  - Dilysrwydd
  - Diogelwch Cyfreithiol
  - Rheolaeth
- 7 Meini prawf UNESCO wrth asesu Gwerth Byd-eang Neilltuol.
- 8 Polisi a blaenoriaethau UNESCO ar gyfer Safleoedd Treftadaeth y Byd yn y dyfodol.
- 9 Polisi'r DU ar Safleoedd Treftadaeth y Byd.
- 10 Ffynonellau gwybodaeth (gwefannau a chyhoeddiadau).

**Ffurflen Gais****Nodyn Cyfarwyddyd ar lenwi'r Ffurflen Gais**

## Taflen Wybodaeth 1

### UNESCO

Mae Sefydliad Addysgol Gwyddonol a Diwylliannol y Cenhedloedd Unedig (UNESCO) yn asiantaeth arbenigol o eiddo'r Cenhedloedd Unedig, a sefydlwyd yn 1948,

“i gyfrannu at heddwch a diogelwch trwy hybu cydweithrediad ymysg y gwledydd trwy addysg, gwyddoniaeth a diwylliant er mwyn hyrwyddo parch cyffredinol tuag at gyfiawnder, y gyfraith, hawliau dynol a rhyddid sylfaenol a gadarnheir dros bobloedd y byd, heb wahaniaethu ar sail hil, rhyw, iaith na chrefydd, gan Siartr y cenhedloedd Unedig.”

Mae pencadlys UNESCO ym Mharis ac mae ganddo rwydwaith o swyddfeydd rhanbarthol ledled y byd. Mae gan bob gwladwriaeth Gomisiwn Cenedlaethol UNESCO hefyd, nad yw'n rhan o UNESCO, ond a ffurfir o'r gymdeithas sifil i fod yn ffocws ac yn ddolen rhwng y Llywodraeth, y gymdeithas ac UNESCO. Mae Comisiwn Cenedlaethol y DU hefyd yn cynghori'r Llywodraeth ar faterion sy'n ymwneud ag UNESCO.

Nodau UNESCO yw:

- helpu i liniaru tlodi eithafol
- helpu i sicrhau addysg gynradd gyffredinol i bawb
- helpu gwledydd i weithredu strategaethau cenedlaethol ar ddatblygiad cynaliadwy
- helpu i wrthsefyll tueddiadau cyffredol mewn perthynas â cholli bioamrywiaeth, adnoddau naturiol a diogelwch amgylcheddol
- dileu anghydraddoldeb rhwng y ddau ryw

Mae UNESCO'n cynnal ymchwil ar bolisi a datblygu, yn pennu safonau, ac yn monitro canlyniadau ar lefel fyd-eang, ranbarthol a chenedlaethol ac mae'n gweithredu fel catalydd i gydweithrediad rhyngwladol. Ar lefel fyd-eang, hwn yw'r prif gorff rhynglywodraethol sy'n ymwneud â threftadaeth, ddiwylliannol a naturiol.

Nodau cyffredinol Strategaeth Tymor Canol gyffredol UNESCO (2008 – 2013) yw:

1. Sicrhau addysg a dysgu gydol oes o ansawdd i bawb
2. Hybu gwybodaeth wyddonol a pholisi ar ddatblygiad cynaliadwy
3. Wynebu heriau cymdeithasol a moesegol newydd
4. Meithrin amrywiaeth ddiwylliannol, deialog rhwng diwylliannau a diwylliant heddwch
5. Creu cymdeithasau sydd â gwybodaeth gynhwysol trwy wybodaeth a chyfathrebu

Er mwyn ategu ei weithgareddau o ran pennu safonau ym maes treftadaeth, mae UNESCO wedi mabwysiadu chwe Chonfensiwn yn ystod y 56 o flynyddoedd diwethaf yn ymwneud â threftadaeth ddiwylliannol a naturiol. Confensiynau, sef cytundebau sy'n rhwymo'r gwladwriaethau, yw'r arfau a ddefnyddir gan UNESCO i gyrraedd ei nodau a gwireddu ei ddyheadau. Y rhain yw:

- [Diogelu Eiddo Diwylliannol s Bydd Gwrthdaro Arfog](#) (1954)
  - [Gwahardd ac Atal Mewnforio, Allforio a Throsgrwyddo Anghyfreithlon ar Eiddo Diwylliannol\\*](#) (1970)
  - [Diogelu Treftadaeth Ddiwylliannol a Naturiol y Byd](#) \*(1972) – “Confensiwn Treftadaeth y Byd”
  - [Diogelu'r Dreftadaeth Ddiwylliannol Danddwyr](#) (2001)
  - [Diogelu'r Dreftadaeth Ddiwylliannol Anghyffwrdd](#) (2003)
  - Confensiwn Fframwaith ar Amrywiaeth Ddiwylliannol \* (2005)
- [\* = Confensiwn a gadarnhawyd gan y DU]

Mae UNESCO wedi mabwysiadu un Confensiwn ar dreftadaeth naturiol:

- Confensiwn ar Wlypdiroedd o Bwysigrwydd Rhyngwladol, yn enwedig Adar Dŵr (Confensiwn Ramsar) (1971)

Ar hyn o bryd mae 167 o safleoedd Ramsar gan y DU (146 yn y DU ac 21 mewn Tiriogaethau Tramor), 28 o Safleoedd Treftadaeth y Byd (25 yn y DU a 3 mewn Tiriogaethau Tramor), 9 o Warchodfeydd Biosffer, ac 8 Geoparc. Mae ganddi hefyd 3 dinas yn y Rhwydwaith Dinasoedd Creadigol.

Prif nodau Llywodraeth y DU mewn perthynas ag UNESCO yw:

- Datblygu mewnbyn y DU i bolisiau a dadleuon UNESCO, o bob rhan o'r DU ac o bob rhan o'r gymdeithas
- Creu UNESCO mwy effeithiol sy'n cyflawni er gwell yn y meysydd lle mae'n gymwys i wneud hynny
- Meithrin cefnogaeth y DU i ddelfrydau ac i waith UNESCO

Yr adran yn y llywodraeth sy'n arwain ar UNESCO yw'r Adran Datblygiad Rhyngwladol (DFID), tra bod yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) yn arwain ar faterion diwylliannol a pholisi Treftadaeth y Byd. Yn nhermau UNESCO, DCMS yw 'Parti'r Wladwriaeth', yn cynrychioli Llywodraeth y DU ar weithredu'r Confensiwn.

## Taflen Wybodaeth 2

### Y Confensiwn ar Ddiogelu Treftadaeth Ddiwylliannol a Naturiol y Byd (1972) a'i Ganllawiau Gweithredol

Confensiwn Treftadaeth y Byd yw Confensiwn mwyaf llwyddiannus UNESCO ar dreftadaeth ddiwylliannol a naturiol. Erbyn Gorffennaf 2009 yr oedd:

- 186 o aelod-wladwriaethau
- Mae gan 148 o aelod-wladwriaethau o leiaf un Safle Treftadaeth y Byd
- Nid oes gan 38 o aelod-wladwriaethau ddim Safle Treftadaeth y Byd

Mae Rhestr Treftadaeth y Byd yn cynnwys:

- Cyfanswm o 890 o Safleoedd Treftadaeth y Byd, yn cynnwys:
- 689 o safleoedd diwylliannol,
- 176 o safleoedd naturiol; a
- 25 o safleoedd cymysg sydd â statws dan feini prawf naturiol a diwylliannol.

Mae gan y DU 28 o Safleoedd Treftadaeth y Byd, ac mae ymhlith y deg gwladwriaeth sydd â'r gynrychiolaeth fwyaf ar Restr Treftadaeth y Byd.

Yn ogystal â Rhestr Treftadaeth y Byd, mae'r Confensiwn yn ymdrin hefyd â chadwraeth treftadaeth naturiol neu dreftadaeth ddiwylliannol a naturiol fel y cyfryw. Gellir gweld y testun llawn ar wefan Canolfan Treftadaeth y Byd UNESCO <http://whc.unesco.org> ynghyd â gwybodaeth ddefnyddiol arall.

Mae'r Confensiwn yn darparu:

1. Diffiniad o dreftadaeth ddiwylliannol a naturiol o werth byd-eang neilltuol (Erthyglau 1 a 2)
2. Cyfrifoldeb pob Parti'r Wladwriaeth i ddiffinio treftadaeth ddiwylliannol a naturiol o werth neilltuol yn ei thiriogaeth (Erthygl 3)
3. Cydnabod mai cyfrifoldeb pob Parti'r Wladwriaeth yw cadwraeth treftadaeth ddiwylliannol a naturiol o werth byd-eang neilltuol (Erthygl 4)
4. Pob Parti'r Wladwriaeth i fabwysiadu polisïau:
  1. i roi swyddogaeth i dreftadaeth ddiwylliannol a naturiol ym mywyd y gymuned yn gyffredinol;
  2. i integreiddio diogelu'r dreftadaeth i raglenni cynllunio cynhwysfawr;
  3. i sefydlu gwasanaethau priodol i ddiogelu, cadw a throsglwyddo'r dreftadaeth honno;
  4. i ddatblygu astudiaethau ac ymchwil gwyddonol a thechnegol ac i bennu dulliau gweithredu i wrthweithio peryglon i'r dreftadaeth honno;
  5. i gymryd camau cyfreithiol, gwyddonol, technegol, gweinyddol ac ariannol priodol i adnabod, diogelu, cadw, cyflwyno ac adfer y dreftadaeth honno (Erthygl 5).
5. Cydnabod dyletswydd y gymuned ryngwladol i gydweithio i sefydlu system o gydweithrediad rhyngwladol i ddiogelu treftadaeth y byd (Erthyglau 6 a 7)
6. Sefydlu **Pwyllgor Treftadaeth y Byd** fel corff llywodraethol y Confensiwn, a etholir o blith aelod-wladwriaethau'r Confensiwn, ac adnabod Cyrff Ymgynghorol i'r Confensiwn (Erthyglau 8, 9, 10)
7. Creu Ysgrifenyddiaeth i'r Pwyllgor gan UNESCO, a gynorthwyr gan y Cyrff Llywodraethol (Erthygl 14)
8. Paratoi rhestrau o eiddo addas i'w gynnwys yn Rhestr Treftadaeth y Byd gan wladwriaethau unigol, a sefydlu'r Rhestr honno a Rhestr Treftadaeth y Byd mewn perygl (Erthyglau 11 a 12)
9. Darparu cymorth rhyngwladol gan y Pwyllgor (Erthyglau 13, 19, 20, 21, 22, 23, 24, 25, 26)
10. Creu Cronfa Treftadaeth y Byd a gweithgareddau eraill i godi arian (Erthyglau 15, 16, 17, 18)

11. Gweithgareddau addysgol a rhaglenni gwybodaeth i hybu ymwybyddiaeth o Dreftadaeth y Byd a bygythiadau iddi (Erthyglau 27, 28)
12. Adrodd gan BARTIÖN Gwladwriaethau ar y camau a gymerwyd i weithredu'r (Erthygl 29)

Mae'r **Canllawiau Gweithredol ar Weithredu Confensiwn Treftadaeth y Byd**. (Chwefror 2008, argraffiad newydd yn 2010) yn cynnwys y rheolau manwl ar bob agwedd ar y Confensiwn. Mae'r ddogfen allweddol hon ar gael ar wefan UNESCO ar <http://whc.unesco.org/en/guidelines/>. Trwy gydol y cyfarwyddyd cyfeirir at y paragraffau perthnasol yn y *Canllawiau Gweithredol*.



### Taflen Wybodaeth 3

#### **Pwy sy'n gwneud beth: Llywodraethau cenedlaethol, Pwyllgor Treftadaeth y Byd a'i gynghorwyr**

Mae **Confensiwn Treftadaeth y Byd** yn cydnabod mai eiddo gwladwriaethau unigol yw'r prif gyfrifoldeb am ofalu am a chadw treftadaeth y byd ac wrth iddi ymuno â'r Confensiwn, mae pob llywodraeth yn cydnabod ei dyled i ddiogelu Treftadaeth y Byd. Fel un sydd wedi llofnodi'r Confensiwn Llywodraeth y DU yw Parti'r Wladwriaeth ac mae hi wedi ymrwymo i'w weithredu.

Goruchwylir gweithrediad y Confensiwn gan **Bwyllgor Treftadaeth y Byd** rhynglywodraethol UNESCO, sy'n cynnwys 21 o wladwriaethau a etholir yn eu tro o blith 186 o aelod-wladwriaethau'r Confensiwn. Yn ei gyfarfod blyneddol, mae Pwyllgor Treftadaeth y Byd yn penderfynu pa safleoedd a gaiff eu lle ar Restr Treftadaeth y Byd. Mae'r Pwyllgor yn monitro hefyd pa mor dda yw cadwraeth Safleoedd Treftadaeth y Byd a gall ymyrryd â llywodraethau unigol os cred fod problemau.

Cynghorir Pwyllgor Treftadaeth y Byd ar enwebiadau gan yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur ac Adnoddau Naturiol (**IUCN**) ar safleoedd naturiol, ac mae'r Cyngor Rhyngwladol ar Henebion a Safleoedd (**ICOMOS**) yn cynghori ar safleoedd ac ar gadwraeth safleoedd. Mae gan y ddau gorff bwyllgorau cenedlaethol yn y DU, ond nid oes gan y rhain gysylltiadau ffurfiol ag UNESCO.

Darperir gwasanaeth ysgrifenyddol y Pwyllgor gan Ganolfan Treftadaeth y Byd UNESCO. Mae'r wefan <http://whc.unesco.org> yn ffynhonnell wybodaeth ragorol.

## Taflen Wybodaeth 4

### Beth yw Safle Treftadaeth y Byd?

Nod Confensiwn Treftadaeth y Byd yw adnabod, diogelu, cadw, cyflwyno a throsglwyddo treftadaeth ddiwylliannol a naturiol sydd o werth byd-eang neilltuol i'r ddynoliaeth gyfan i genedlaethau'r dyfodol. Bob blwyddyn mae Pwyllgor Treftadaeth y Byd, y mae'r Confensiwn yn gweithredu trwyddo, yn barnu enwebiadau am ddyfarnu statws i safleoedd ar Restr Treftadaeth y Byd. Pennir statws felly i Safleoedd Treftadaeth y Byd o dan delerau Confensiwn UNESCO ar Ddiogelu Treftadaeth Ddiwylliannol a Naturiol y Byd (1972). Ym mis Gorffennaf 2009 y mae 890 o Safleoedd Treftadaeth y Byd.

Gall safleoedd fod yn rhai diwylliannol neu naturiol neu gymysg.

Gall **safleoedd diwylliannol** gynnwys:

- henebion (gwaith pensaernïol, cerfluniau a phaentiadau, elfennau neu adeiladau o natur archeolegol, aysgrifau, ogof-anheddau a chyfuniadau o nodweddion o werth byd-eang neilltuol o safbwynt hanes, celf neu wyddoniaeth)
- grwpiau o adeiladau (grwpiau o adeiladau cysylltiedig neu ar wahân sydd, oherwydd eu pensaernïaeth, eu hunffurfiaeth neu eu lle yn y dirwedd o werth byd-eang neilltuol o safbwynt hanes, celf neu wyddoniaeth)
- safleoedd (gwaith dyn neu waith cyfun natur a dyn, ac ardaloedd yn cynnwys safleoedd archeolegol sydd o werth byd-eang neilltuol o safbwynt hanesyddol, esthetig, ethnolegol neu anthropolegol)

(Gweler Confensiwn Treftadaeth y Byd Erthygl 1.)

Cynhwysir **tirweddau diwylliannol** yn y categori hwn. (Gweler *Canllawiau Gweithredol 47*, ac Atodiad 3, 5-13.)

Mae'r rhain yn dynodi 'gwaith dyn a natur ar y cyd' ac maent yn arddangos esblygiad y gymdeithas ddynol ac anheddiad dros amser, dan ddylanwad cyfyngiadau a chyfleoedd ffisegol sydd yn yr amgylchedd naturiol a dilyniant grymoedd cymdeithasol, economaidd a diwylliannol. Gall tirweddau diwylliannol adlewyrchu rhyngweithiad yr hil ddynol a'i hamgylchedd naturiol.

Gallant gynnwys:

- tirweddau a gynlluniwyd megis gerddi a pharciau
- tirweddau sydd wedi esblygu'n organig trwy rym cymdeithasol, economaidd, gweinyddol a/neu grefyddol cychwynnol sydd wedi datblygu mewn perthynas â'r amgylchedd naturiol ac fel ymateb iddo
- tirweddau diwylliannol cysylltiadol sydd â chysylltiadau crefyddol, artistig neu ddiwylliannol cadarn.

Diffinnir **treftadaeth naturiol** yn y Confensiwn fel:

- nodweddion naturiol yn cynnwys ffurfiadau ffisegol a biolegol sydd o Werth Byd-eang Neilltuol o safbwynt esthetig neu wyddonol
- ffurfiadau daearegol a ffisiograffig ac ardaloedd penodol manwl sy'n gynefin i rywogaethau o anifeiliaid a phlanhigion dan fygythiad sydd o werth neilltuol o safbwynt gwyddoniaeth neu gadwraeth
- safleoedd naturiol neu ardaloedd naturiol manwl o Werth Byd-eang Neilltuol safbwynt gwyddoniaeth, cadwraeth neu brydferthwch naturiol

(gweler *Confensiwn Treftadaeth y Byd*, Erthygl 2)

Mae **safleoedd cymysg** yn safleoedd sydd o Werth Byd-eang Neilltuol am resymau treftadaeth ddiwylliannol a naturiol. Gall rhai tirweddau diwylliannol fod yn safleoedd cymysg hefyd.

Eithrir casgliadau o eitemau treftadaeth ddiwylliannol, megis amgueddfeydd neu wrthrychau y gellir eu symud, megis llongau hanesyddol, o'r Confensiwn.

## Taflen Wybodaeth 5

### Beth yw'r Rhestr Betrus?

Mae **Rhestr Betrus** yn rhestr o eiddo neu safleoedd sy'n ffurfio rhan o'r dreftadaeth ddiwylliannol a naturiol, y mae llywodraeth y wlad yn barnu eu bod yn addas i'w henwebu ar gyfer Rhestr Treftadaeth y Byd. Rhaid tynnu pob enwebiad i'w gyflwyno am benderfyniad gan Bwyllgor Treftadaeth y o Restr Betrus genedlaethol. (Gweler *Canllawiau Gweithredol* 62 – 76 ac Atodiad 2) am ragor o fanylion. <http://whc.unesco.org/en/guidelines/>

Gwahoddir gwledydd sydd wedi cadarnhau'r Confensiwn i gyflwyno Rhestr Betrus o safleoedd y maent o'r farn fod y potensial ganddynt i fodloni meini prawf UNESCO o ran Gwerth Byd-eang Neilltuol, sy'n ddilys a chyfan, ac a reolir yn ddigon da i ddiogelu'r gwerthoedd hynny. Mae fformat y Rhestr Betrus yn cynnwys:

- Enw'r eiddo
- Lleoliad daearyddol yr eiddo
- Disgrifiad byr o'r eiddo
- Cyfiawnhad o'i werth byd-eang neilltuol yn unol â'r meini prawf ac â'r amodau dilysrwydd neu gyfanrwydd fel y'u ceir yn y Canllawiau Gweithredol.

Cyhoeddwyd Rhestr Betrus ddiwethaf Teyrnas Unedig Prydain a Gogledd Iwerddon yn 1999. Cynhwysai 25 o safleoedd. Llwyddwyd i enwebu deg o'r rhain. Gellir gweld Rhestr 1999 ar: [http://www.culture.gov.uk/reference\\_library/publications/4739.aspx](http://www.culture.gov.uk/reference_library/publications/4739.aspx)

## Taflen Wybodaeth 6

### Gofynion wrth gynnwys safle ar Restr Treftadaeth y Byd

Er mwyn iddo gael ei dderbyn i Restr Treftadaeth y Byd, rhaid i le fod â'r canlynol:

1. Gwerth Byd-eang Neilltuol
2. Dilysrwydd (safleoedd diwylliannol yn unig)
3. Cyfanrwydd (safleoedd diwylliannol a naturiol)
4. Diogelwch trwy ddeddfwriaeth
5. System i warchod y Gwerth Byd-eang Neilltuol. Yn y DU, golyga hyn Gynllun Rheoli Safle Treftadaeth y Byd.

Er mwyn penderfynu a yw safle'n addas, mae, UNESCO'n ystyried safleoedd o dan 10 o feini prawf, a restrir yn Nhaflen wybodaeth 7. Bydd ymgeiswyr yn cynnig un neu ragor o feini prawf, fel y bo'n briodol i'r safle.

Y gofyn sylfaenol yw bod **Gwerth Byd-eang Neilltuol** gan y lle. Mae hyn yn golygu bod ei werth diwylliannol eu naturiol mor eithriadol fel ei fod yn croesi pob ffin rhwng gwledydd, ac o bwysigrwydd eithriadol i'r ddynoliaeth, yn awr ac yn y dyfodol: ac o arwyddocâd byd-eang. Nid yw arwyddocad cenedlaethol yn ddigon i gyfiawnhau cofrestru. Heb y Gwerth Byd-eang Neilltuol hwn ni all safle lwyddo. (Gweler *Canllawiau Gweithredol* 49, 77-78.)

Asesir **dilysrwydd** i'r graddau y gellir barnu bod y ffynonellau gwybodaeth am ddilysrwydd lle'n ddilys. Mae'r priodoleddau neu'r priodweddau y dylid asesu dilysrwydd wrthynt yn dibynnu ar natur y safle dan sylw. (Gweler *Canllawiau Gweithredol* 79 - 86.)

Mae **cyfanrwydd** yn mesur pa mor gyfan neu gyflawn yw treftadaeth y safle dan sylw a'i nodweddion allweddol. Asesir cyfanrwydd ar y sail a yw ffiniau arfaethedig y safle'n ddigon i gynnwys yr holl elfennau sy'n dangos ei Werth Byd-eang Neilltuol.

Mae cyfanrwydd safleoedd diwylliannol yn asesu'r cyflwr ffisegol neu'r nodweddion arwyddocaol, a maint y dirywiad. (Gweler *Canllawiau Gweithredol* 87 – 89.)

Asesir cyfanrwydd safleoedd naturiol trwy gyfres o brofion penodol gan ddibynnu ar y meini prawf treftadaeth naturiol a ddewiswyd wrth enwebu'r safle. (Gweler *Canllawiau Gweithredol* 90 – 95.)

Mae gofyn digon o **ddiogelwch** i warchod y Gwerth Byd-eang Neilltuol. Yn achos rhai safleoedd sy'n gwneud cais am le ar y Rhestr Betrus newydd, ni fydd yr holl ddiogelwch cyfreithiol a chynllunio yn ei le ar y pryd. Fodd bynnag, unwaith y dewisir safleoedd i'r Rhestr Betrus, bydd hyn yn gwbl ofynnol. Dylai ymgeiswyr ddeall fod angen lefel uchel o ddiogelwch ar gyfer safleoedd Treftadaeth y Byd.

**Rheolaeth.** Wrth gofrestru, cytunir ar Ddatganiad o Werth Byd-eang Neilltuol (SOUV). Mae hwn y cynnwys disgrifiad cryno o'r safle, crynodeb o'i Werth Byd-eang Neilltuol, meini prawf UNESCO sy'n berthnasol i'r safle, amlinelliad o'i gyfanrwydd, ei ddilysrwydd, a hefyd y trefniadau i'w reoli a'i ddiogelu'n gyfreithiol. Y SOUV wedyn fydd y sylfaen ar gyfer rheoli'r safle yn y dyfodol, a'r pwrpas allweddol bydd gwarchod ei the Werth Byd-eang Neilltuol.

Rhaid bod gan bob Safle Treftadaeth y Byd ffiniau digonol i gynnwys priodoleddau Gwerth Byd-eang Neilltuol (gweler *Canllawiau Gweithredol* 99 – 102). Ar hyn o bryd dylai ymgeiswyr ystyried lle y gellid tynnu'r ffiniau, gan y bydd hyn o help wrth asesu effaith botensial statws Treftadaeth y Byd.

Er bod modd gwneud newidiadau ar gyrion Safle Treftadaeth y Byd, mae'r statws yn golygu bod rhaid asesu pob cynnig i ddatblygu neu newid a all gael effaith Safle Treftadaeth y Byd gael ei asesu mewn perthynas â'r effaith ar y SOUV. Bydd y statws yn cael effaith ar faint y newid sy'n bosibl a

bydd yn golygu archwilio penderfyniadau cynllunio ar lefel ryngwladol. Mae'n bwysig sylweddoli felly y gallai statws Treftadaeth y Byd atal datblygiad a allai fod yn bwysig am resymau eraill.

Ar hyn o bryd nid oes angen cynllun rheoli llawn, ond bydd angen un erbyn cyflwyno enwebiad i UNESCO. Dylai'r Cynllun Rheoli llawn, sy'n crynhoi system reoli'r safle, amlinellu trefniadau ar gyfer y safle ac, yn unol â'r Canllawiau Gweithredol, dylai gynnwys:

- (a) cyd-ddealltwriaeth drwyadl o'r eiddo gan bob budd-ddeiliad allweddol
- (b) cylched o gynllunio, gweithredu, monitro, gwerthuso ac adborth
- (c) cynnwys partneriaid a budd-ddeiliaid
- (d) dyrannu adnoddau angenrheidiol
- (e) meithrin gallu
- (f) disgrifiad hygyrch a thryloyw o sut mae'r system reoli'n gweithio

**Cymhariaeth â safleoedd eraill.** Rhaid i Safle Treftadaeth y Byd fod yn enghraifft arbennig o'i fath ar lefel fyd-eang. Mae dadansoddiad cymharol manwl sy'n gwerthuso'r safle yn ôl safleoedd tebyg eraill yn ofynnol ar gyfer dogfennau'r enwebiad llawn. Gofynnir i ymgeiswyr ystyried a oes safleoedd tebyg eraill, yn y DU neu rywle arall yn y byd.

Un o'r meini prawf wrth ddewis safleoedd i'r Rhestr Betrus newydd fydd i ba raddau y mae'r safle'n cyd-fynd â blaenoriaethau UNESCO ar gyfer enwebiadau newydd, (gweler Taflen Wybodaeth 8).

## Taflen Wybodaeth 7

### Meini prawf wrth asesu Gwerth Byd-eang Neilltuol UNESCO

- (i) cynrychioli campwaith athrylith greadigol ddynol;
- (ii) dynodi cyfnewid gwerthoedd dynol arbennig, dros gyfnod o amser neu o fewn rhan ddiwylliannol o'r byd, o ran datblygiadau mewn pensaernïaeth neu dechnoleg, celfyddydau coffao, cynllunio trefi neu ddylunio tirwedd;
- (iii) bod yn dyst unigryw neu eithriadol o leiaf i draddodiad diwylliannol neu i wareiddiad sy'n fyw neu sydd wedi diflannu;
- (iv) bod yn enghraifft nodedig o fath o adeilad, cyfuniad pensaernïol neu dechnegol neu dirwedd sy'n arddangos cam(au) arwyddocaol yn hanes y ddynoliaeth;
- (v) bod yn enghraifft nodedig o anheddiad dynol traddodiadol, o ddefnydd o dir neu fôr sy'n dynodi diwylliant (neu ddiwylliannau), neu ryngweithiad dynoliaeth â'r amgylchedd yn enwedig lle mae wedi dod yn fregus oherwydd effaith newid anwrthdroadwy;
- (vi) bod yn gysylltiedig mewn ffordd uniongyrchol neu amlwg â digwyddiadau neu â thraddodiadau byw, â syniadau, neu â chredoau, â gwaith artistig neu lenyddol o arwyddocâd byd-eang nodedig.
- (vii) cynnwys ffonemau naturiol rhagorol neu ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol a phwysigrwydd esthetig;
- (viii) bod yn enghreifftiau nodedig o hanes y ddaear, yn cynnwys cofnod bywyd, prosesau daearegol arwyddocaol yn natblygiad tirffurfiau, neu nodweddion geomorffig neu ffisiograffig o bwys;
- (ix) bod yn enghreifftiau nodedig o brosesau ecolegol a biolegol arwyddocaol yn esblygiad neu ddatblygiad ecosystemau a chymunedau planhigion ac anifeiliaid tir, dŵr croyw, arfordir a môr;
- (x) cynnwys y cynefinoedd naturiol pwysicaf a mwyaf arwyddocaol ar gyfer cadwraeth amrywiaeth fiolegol yn ei lle, gan gynnwys y rhywogaethau dan fygythiad sydd o werth byd-eang neilltuol o safbwynt gwyddoniaeth neu gadwraeth.

## Taflen Wybodaeth 8

### Polisi a blaenoriaethau UNESCO ar gyfer Safleoedd Treftadaeth y Byd yn y dyfodol

Yn ogystal â'r gofynion sylfaenol mewn perthynas â dod yn Safle Treftadaeth y Byd, ceir gwahanol benderfyniadau ar bolisi gan Bwyllgor Treftadaeth y Byd sy'n effeithio ar y broses enwebu a hefyd ar gydbwysedd Rhestr Treftadaeth y Byd.

Y pum amcan strategol wrth weithredu'r Confensiwn yw:

- 1 Cryfhau **Hygrededd** Rhestr Treftadaeth y Byd
- 2 Sicrhau **Cadwraeth** effeithiol Eiddo Treftadaeth y Byd
- 3 Hybu datblygiad **Meithrin Gallu** effeithiol ym Mhartïon y Gwladwriaethau
- 4 Gwella ymwybyddiaeth, ymwneud a chefnogaeth y cyhoedd i Dreftadaeth y Byd trwy **Gyfathrebu**
- 5 Gwella rôl **Cymunedau** o ran gweithredu Confensiwn Treftadaeth y Byd

Gall pob gwlad wneud hyd at ddau enwebiad bob blwyddyn, a lle bo modd dylai un fod yn safle naturiol. Gofynnwyd i wledydd sydd â chynrychiolaeth dda arafu enwebiadau ymhellach. Ystyrir uchafswm o 45 o enwebiadau ym mhob cyfarfod o Bwyllgor Treftadaeth y Byd.

Blaenoriaeth gan UNESCO yw unioni anghydbwysedd daearyddol a theipolegol yn Rhestr Treftadaeth y Byd. Yn Ewrop y ceir tua hanner y 890 o Safleoedd Treftadaeth y Byd sydd ar y ddaear. Mae saith o'r deg gwlad sydd â'r gynrychiolaeth uchaf yn Ewrop. Mae gan y DU, sydd â 28 o Safleoedd Treftadaeth y Byd, y nifer seithfed mwyaf yn y byd. Mae gwledydd llai datblygedig yn ei chael yn anodd paratoi enwebiadau a rheoli safleoedd yn unol â gofynion UNESCO. Mae cynrychiolaeth dda gan lawer math o dreftadaeth yn Ewrop, megis Eglwysi Cadeiriol Gothig a threfi canoloesol o fewn muriau. Mae llawer llai o gynrychiolaeth gan fathau eraill o dreftadaeth. Ceir anghydbwysedd hefyd rhwng safleoedd naturiol a diwylliannol ar Restr Treftadaeth y Byd (689 o safleoedd diwylliannol, 176 o rai naturiol a 25 o rai cymysg).

Datblygodd Pwyllgor Treftadaeth y Byd Strategaeth Fyd-eang yn 1994, yn ffocysu'n bennaf ar dreftadaeth ddiwylliannol er mwyn adlewyrchu holl ystod trysorau diwylliannol a naturiol ein byd gan ddarparu fframwaith cynhwysfawr a methodoleg weithredol i weithredu Confensiwn Treftadaeth y Byd.

Ar hyn o bryd ychydig iawn o safleoedd ar Restr Treftadaeth y Byd sy'n cynrychioli diwylliannau byw. Nod y Strategaeth Fyd-eang yw adnabod a gwarchod enghreifftiau nodedig o safleoedd o'r fath, er enghraifft rhai sy'n dangos cydfodolaeth bodau dynol a'r tir mewn amryw ffyrdd. Comisiynodd y pwyllgor astudiaethau hefyd gan ICOMOS (yn ymwneud â threftadaeth ddiwylliannol) ac IUCN (yn ymwneud â threftadaeth naturiol) er mwyn cynnig rhagor o gyfarwyddyd ar fathau o dreftadaeth y gellid eu hychwanegu at Restr Treftadaeth y Byd.

Nid yw astudiaeth ICOMOS yn adnabod unrhyw flaenoriaethau penodol o ran treftadaeth ddiwylliannol y dylid eu henwebu. Fodd bynnag, mae'n ffynhonnell gyfoethog y dylid ei hastudio cyn cynnig safle i'r Rhestr Betrus, ac mae hi ar gael ar wefan ICOMOS, (gweler taflen wybodaeth 10).

Mae astudiaeth IUCN yn adnabod bylchau penodol o ran safleoedd treftadaeth naturiol y mae angen eu llenwi. Mae hon yn pennu blaenoriaethau clir y dylid eu cymryd i ystyriaeth gan rai sy'n meddwl am safleoedd naturiol ac mae hon ar gael hefyd ar wefan IUCN, (gweler taflen wybodaeth 10).



## Taflen Wybodaeth 9

### Polisi'r DU ar Safleoedd Treftadaeth y Byd

Yn y Deyrnas Unedig, yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon sy'n gyfrifol am weithredu Confensiwn Treftadaeth y Byd, ac mae'n gweithredu fel Parti'r Wladwriaeth. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i weithredu Confensiwn Treftadaeth y Byd ac i gefnogi nodau a dyheadau UNESCO. Mae'n cydweithio ag Adrannau eraill y Llywodraeth a gyda chefnogaeth Historic Scotland, Cadw ac Adran yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon a'r Cydbwyllgor Cadwraeth Natur, i reoli Safleoedd Treftadaeth y Byd yn y DU mewn modd cywir. Mae ystod o gyrff diwylliannol a threftadaeth naturiol eraill ym mhob rhan o'r DU yn cyfrannu at y gwaith hwn.

Yn ogystal â deddfwriaeth, sydd ar waith trwy'r DU, mae diogelu a rheoli Safleoedd Treftadaeth y Byd yn seiliedig ar ddefnyddio'r system cynllunio gofodol, lle mae gan Awdurdodau Lleol y polisiâu a'r dogfennau cynllunio gofynnol yn eu trefniadau lleol. Mae Cynlluniau Rheoli Treftadaeth y Byd yn ofynnol ar gyfer pob safle er mwyn cynnig dull gweithredu cyfannol trwy sicrhau cynnwys pob budd-ddeiliad allweddol.

Elfennau allweddol y dull gweithredu hwn yw:

- Pennu asedau penodol mewn Safleoedd Treftadaeth y Byd (e.e. adeiladau rhestredig, henebion rhestredig, parciau a gerddi, mannau cadwraeth, Ardaloedd o Brydferthwch Naturiol Neilltuol, Mannau Cadwraeth Arbennig, Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, etc.)
- Mae Safleoedd Treftadaeth y Byd yn ystyriaeth o bwys wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio
- Dylai awdurdodau cynllunio gynnwys polisiâu yn eu cynlluniau lleol i ddiogelu Gwerth Byd-eang Neilltuol, dilysrwydd a chyfanrwydd Safleoedd Treftadaeth y Byd
- Dylai fod gan bob Safle Treftadaeth y Byd Gynllun Rheoli
- Ymrwymiad Awdurdodau Lleol o ddiogelu, hyrwyddo a rheoli Safleoedd Treftadaeth y Byd yn eu hardaloedd
- Grŵp llywio budd-ddeiliaid a chefnogaeth gan y partneriaid allweddol, gan gynnwys perchnogion o bwys, rheolwyr a chymunedau
- Cydlynu effeithiol, gan Gydlynnydd penodedig fel arfer

Er nad yw ymgeiswyr am le ar y Rhestr Betrus o reidrwydd â'r holl fesurau hyn yn eu lle, mae'n bwysig ystyried yn ystod y cam cyntaf hwn sut y gellir eu cyflawni unwaith y bydd safle ar y Rhestr. Mae *The Protection & Management of World Heritage Sites in England* (English Heritage 2009) yn cynnwys cyfarwyddyd mewn perthynas â Lloegr.

<http://www.communities.gov.uk/publications/planningandbuilding/circularworldheritage>

## Taflen Wybodaeth 10

### Ffynonellau Gwybodaeth (cyhoeddiadau a gwefannau)

#### Gwefannau defnyddiol

##### Sefydliadau Rhyngwladol:

ICOMOS (Cyngor Rhyngwladol ar Henebion a Safleoedd)  
[http://www.international.icomos.org/world\\_heritage/index.html](http://www.international.icomos.org/world_heritage/index.html)

IUCN (Cyngor Rhyngwladol ar Gadwraeth Natur)  
[http://www.iucn.org/about/work/programmes/wcpa\\_worldheritage/](http://www.iucn.org/about/work/programmes/wcpa_worldheritage/)

Canolfan Treftadaeth y Byd UNESCO <http://whc.unesco.org/>

##### Sefydliadau Cenedlaethol:

Porth Treftadaeth yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon  
<http://www.culture.gov.uk/ukwhportal/index.htm>

Treftadaeth y Byd Gogledd Iwerddon [http://www.nenvironment.gov.uk/places\\_to\\_visit\\_home/whs.htm](http://www.nenvironment.gov.uk/places_to_visit_home/whs.htm)

Treftadaeth y Byd yr Alban Hanesyddol  
<http://www.historic-scotland.gov.uk/index/heritage/worldheritage.htm>

Safle Treftadaeth y Byd Cadw  
<http://www.cadw.wales.gov.uk/default.asp?id=66>

Safle Treftadaeth y Byd English Heritage  
<http://www.english-heritage.org.uk/server/show/nav.8673>

Cydbwyllgor Cadwraeth Natur: [www.jncc.gov.uk](http://www.jncc.gov.uk)

Comisiwn Cenedlaethol UNESCO y DU (UKNC). [www.unesco.org.uk](http://www.unesco.org.uk)

Pwyllgor Cenedlaethol ICOMOS y DU [www.icomos-uk.org](http://www.icomos-uk.org)

Pwyllgor Cenedlaethol IUCN y DU [www.iucn-uk.org](http://www.iucn-uk.org)

HELM (Rheolaeth Leola r yr Amgylchedd Hanesyddol) [www.helm.org.uk](http://www.helm.org.uk)

Fforwm Treftadaeth y Byd Awdurdodau Lleol  
<http://www.lawhf.gov.uk/>

#### Cyhoeddiadau

##### Rhyngwladol

Confensiwn Treftadaeth y Byd: <http://whc.unesco.org/en/convention>

*Canllawiau Gweithredol ar Weithredu Confensiwn Treftadaeth y Byd.* (Chwefror 2008, argraffiad newydd yn 2010) <http://whc.unesco.org/en/guidelines/>.

Strategaeth Fyd-eang Treftadaeth y Byd Rhestr Treftadaeth y Byd Gytbwys, Gredadwy a Chynrychioliadol <http://whc.unesco.org/en/globalstrategy/>

Rhestr Treftadaeth y Byd: Llenwi'r Bylchau - dadansoddiad gan ICOMOS (a baratowyd i Bwyllgor Treftadaeth y Byd UNESCO ac yn ymwneud â safleoedd diwylliannol)

[http://www.international.icomos.org/world\\_heritage/whlgaps.htm](http://www.international.icomos.org/world_heritage/whlgaps.htm)

Cyfarwyddyd Rhestr Treftadaeth y Byd: Cyfarwyddyd a Blaenoriaethau yn y Dyfodol ar gyfer Adnabod Treftadaeth Naturiol o Werth Byd-eang Neilltuol Potensial

[http://www.iucn.org/about/work/programmes/wcpa\\_worldheritage/wheritage\\_pub/?2199/The-World-Heritage-List-Guidance-and-Future-Priorities-for-Identifying-Natural-Heritage-of-Potential-Outstanding-Universal-Value](http://www.iucn.org/about/work/programmes/wcpa_worldheritage/wheritage_pub/?2199/The-World-Heritage-List-Guidance-and-Future-Priorities-for-Identifying-Natural-Heritage-of-Potential-Outstanding-Universal-Value)

Mae ICOMOS ac IUCN yn cyhoeddi astudiaethau thematig o fathau neilltuol o dreftadaeth ddiwylliannol a naturiol yn y drefn honno. Gellir gweld astudiaethau thematig ICOMOS ar

<http://www.icomos.org/studies/> . Gellir gweld astudiaethau thematig IUCN ar

[http://www.iucn.org/about/work/programmes/wcpa\\_worldheritage/wheritage\\_pub/wcpa\\_whstudies/](http://www.iucn.org/about/work/programmes/wcpa_worldheritage/wheritage_pub/wcpa_whstudies/)

Mae ICOMOS wedi cyhoeddi astudiaethau thematig ar:

- [The International Canal Monuments](#) (1996)
- [Context for World Heritage Bridges](#) (1997)
- [Potential Fossil Hominid Sites for Inscription on the World Heritage Register](#) (1997)
- [The Urban Architectural Heritage of Latin America](#) (1998)
- [Railways as World Heritage Sites](#) (1999)
- [Les Théâtres et les Amphithéâtres antiques](#) (1999)
- [Les villages ouvriers comme éléments du patrimoine de l'industrie](#) (2001)
- [Southern African Rock-Art Sites](#) (2002)
- [L'Art rupestre](#) (2002)
- [The International Collieries Study](#) (2003)
- [Les Monastères orthodoxes dans les balkans](#) (2003)
- [Les paysages culturels viticoles](#) (2004)
- [Rock Art of Latin America and the Caribbean](#) (2006)
- [Rock Art of Sahara and North Africa](#) (2007)
- [Cultural landscapes of the Pacific Islands](#) (2007)

I weld gwaith pellach ar Werth Byd-eang Neilltuol gweler:

Rhestr Treftadaeth y Byd: Beth yw ? Gwerth Byd-eang Neilltuol Diffinio Gwerth Byd-eang Neilltuol Eiddo Diwylliannol Treftadaeth y Byd ICOMOS

[http://www.international.icomos.org/publications/monuments\\_and\\_sites/16/index.htm](http://www.international.icomos.org/publications/monuments_and_sites/16/index.htm)

Gwerth Byd-eang Neilltuol – Safonau Treftadaeth y Byd Naturiol IUCN

[http://www.iucn.org/about/work/programmes/wcpa\\_worldheritage/wheritage\\_pub/wcpa\\_whstudies/](http://www.iucn.org/about/work/programmes/wcpa_worldheritage/wheritage_pub/wcpa_whstudies/)

### **Astudiaethau defnyddiol eraill:**

Canllawiau Rheoli ar gyfer Safleoedd Diwylliannol Treftadaeth y Byd (ICCROM, UNESCO, ICOMOS), Rhufain 1998

Parodrwydd am Risg: Llwylyfr Rheolaeth ar gyfer Treftadaeth Ddiwylliannol y Byd (ICCROM, UNESCO, ICOMOS), Rhufain 1998

[http://docs.google.com/viewer?url=http%3A%2F%2Fwww.iccrom.org%2Fpdf%2FICCROM\\_17\\_Risk\\_Preparedness\\_en.pdf](http://docs.google.com/viewer?url=http%3A%2F%2Fwww.iccrom.org%2Fpdf%2FICCROM_17_Risk_Preparedness_en.pdf)

Enwebiadau Treftadaeth y Byd i Eiddo Naturiol: llwylyfr adnoddau i ymarferwyr

[http://www.iucn.org/about/work/programmes/wcpa\\_worldheritage/wheritage\\_pub/wcpa\\_whstudies/](http://www.iucn.org/about/work/programmes/wcpa_worldheritage/wheritage_pub/wcpa_whstudies/)

Cynllunio Rheolaeth Eiddo Treftadaeth y Byd Naturiol: llawlyfr adnoddau i ymarferwyr  
[http://www.iucn.org/about/work/programmes/wcpa\\_worldheritage/wheritage\\_pub/wcpa\\_whstudies/](http://www.iucn.org/about/work/programmes/wcpa_worldheritage/wheritage_pub/wcpa_whstudies/)

Newid yn yr Hinsawdd a Threftadaeth y Byd (Papurau Treftadaeth y Byd rhif 22)

Treftadaeth y Byd a Chlustogfeydd (Papurau Treftadaeth y Byd rhif 25)

Tirweddau Diwylliannol Treftadaeth y Byd: llawlyfr cadwraeth a rheolaeth (Papurau Treftadaeth y Byd rhif 26)

Am y gyfres Papurau Treftadaeth y Byd, gweler  
<http://whc.unesco.org/pg.cfm?cid=162&l=en&&index=1>

### **Cyfarwyddyd Cynllunio trwy'r DU:**

#### Lloegr:

Papur Gwyn ar Ddiogelu Treftadaeth yn yr 21ain ganrif  
[http://www.culture.gov.uk/reference\\_library/consultations/1156.aspx](http://www.culture.gov.uk/reference_library/consultations/1156.aspx)

Cylchlythyr CLG 07/2009 Cylchlythyr ar Ddiogelu Safleoedd Treftadaeth y Byd yn Lloegr  
<http://www.communities.gov.uk/publications/planningandbuilding/circularworldheritage>

Diogelu a Rheoli Safleoedd Treftadaeth y Byd yn Lloegr  
Nodyn Cyfarwyddyd English Heritage ar y Cylchlythyr i Loegr ar Ddiogelu Safleoedd Treftadaeth y Byd  
<http://www.english-heritage.org.uk/server/show/nav.21142>

Ymgynghoriad ar y Datganiad Polisi Cynllunio arfaethedig 15: Cynllunio i'r Amgylchedd Hanesyddol  
<http://www.communities.gov.uk/documents/planningandbuilding/pdf/consultationhistoricpps.pdf>

Ychwanegu Safleoedd Treftadaeth y Byd at y Gorchymyn Cyffredinol Erthygl 1(5) Tir  
[http://www.opsi.gov.uk/si/si2008/pdf/uksi\\_20082362\\_en.pdf](http://www.opsi.gov.uk/si/si2008/pdf/uksi_20082362_en.pdf)

#### Gogledd Iwerddon:

Datganiad Polisi Cynllunio Gogledd Iwerddon 6  
[http://www.planningni.gov.uk/index/policy/policy\\_publications/planning\\_statements/pps06-archaeology-built-heritage.pdf](http://www.planningni.gov.uk/index/policy/policy_publications/planning_statements/pps06-archaeology-built-heritage.pdf)

#### Yr Alban:

Polisi Cynllunio'r Alban  
<http://www.scotland.gov.uk/Publications/2010/02/03132605/0>

#### Cymru:

Datganiad Strategol ar Amgylchedd Hanesyddol Cymru  
<http://wales.gov.uk/docs/drah/publications/090921strategicstatementheadlineactionplaneng.pdf>

Polisi Cynllunio a chyngor yng Nghymru  
<http://wales.gov.uk/topics/planning/policy/ppw2002;jsessionid=WjXPLQ8L1psQnsx5dQ22gp1yT1GJyjBnr2kp98Q96ymzr1wcyGyj!-1738898946?lang=en>

### **Treftadaeth y Byd yn y DU:**

Safleoedd Treftadaeth y Byd: Rhestr Betrus Teyrnas Unedig Prydain a Gogledd Iwerddon (DCMS 1999) [http://www.culture.gov.uk/reference\\_library/publications/4739.aspx](http://www.culture.gov.uk/reference_library/publications/4739.aspx)

Treftadaeth y Byd i'r Genedl – papur ymgynghori  
[http://www.culture.gov.uk/reference\\_library/consultations/5629.aspx](http://www.culture.gov.uk/reference_library/consultations/5629.aspx)

Costau a Buddiannau Safleoedd Treftadaeth y Byd yn y DU (a study for DCMS by PricewaterhouseCooper) [http://www.culture.gov.uk/reference\\_library/consultations/5629.aspx](http://www.culture.gov.uk/reference_library/consultations/5629.aspx)

Treftadaeth y Byd i'r Genedl: Identifying, Protecting and Promoting our World Heritage – Government response [http://www.culture.gov.uk/reference\\_library/consultations/6608.aspx](http://www.culture.gov.uk/reference_library/consultations/6608.aspx)

Statws Treftadaeth y Byd: a oes lle i enillion economaidd? (cyhoeddwyd gan Brosiect Treftadaeth y Byd rdal y Llynnoedd)  
<http://www.lakeswhs.co.uk/documents/WHSTheEconomicGainFinalReport.pdf>

**Gweler hefyd enwebiadau a chynlluniau rheoli diweddar:**

Cynllun Enwebu a Rheoli Wal Antoni [http://www.historic-scotland.gov.uk/index/policyandguidance/world\\_heritage\\_scotland/antoninewall.htm](http://www.historic-scotland.gov.uk/index/policyandguidance/world_heritage_scotland/antoninewall.htm)

Cynllun Enwebu a Rheoli Labordy Tirwedd Darwin <http://www.darwinatdowne.co.uk/?f25d5080>

Cynllun Enwebu a Rheoli Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte  
<http://www.wrexham.gov.uk/english/heritage/pontcysyllteaqueduct/becoming.htm>

Cynllun Rheoli Côr y Cewri <http://www.english-heritage.org.uk/server/show/nav.8675>

Cynllun Rheoli Wal Hadrian <http://www.hadrians-wall.org/page.aspx/About-the-World-Heritage-Site/Management-Plan>



department for  
culture, media  
and sport

2-4 Cockspur Street  
London SW1Y 5DH  
[www.culture.gov.uk](http://www.culture.gov.uk)